

MAE DUW YN EIN CARU



Dydd Sul - 1

Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Rhufeiniaid 8:38-39

Rydym yn dechrau'r wythnos drwy edrych ar y gwirionedd ac addewid rhyfeddol yma sydd yn y llythyr i'r Rhufeiniaid. Nid oes modd i ddim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw. Mae hwn yn addewid arbennig iawn, fel yr esboniodd Mark ddoe yn ei gyflwyniad i'r wythnos o weddi. Sut mae modd i ni ddod o flaen Duw cyfiawn a sanctaidd yn ein cyflwr pechadurus a disgwyl iddo wrando? Dim ond trwy Ei gariad rhyfeddol yn yr Arglwydd Iesu Grist. Medrwn fod yn sicr os ydym wedi ein huno a Christ, yna fyddwn ni byth yn cael ei gwahanu oddi wrtho.

Nid ydym yn byw mewn amseroedd hawdd - rydym yn ymwybodol o frwydrau y tu allan i'r eglwys - difaterwch, seciwlariaeth a gelyniaeth. Mae hefyd brwydrau y tu mewn i'r eglwys - rhai arweinwyr yn disgyn, diffyg defosiwn i'r Arglwydd a rhai Cristnogion yn dadlau. Gall y rhain i gyd gael effaith ar ein cerddeddiad ysbrydol. Sut mae sefyll?

Rhaid edrych i Grist. Cawn nerth i sefyll wrth brofi fod ein pechodau wedi eu maddau a deall mai Ef yw'r Arglwydd. Os ydym wedi ein hachub yna gallwn fod yn sicr na all dim ein gwahanu oddi wrth ei gariad. Dyma'r lle y dechreuwn ein hwythnos weddi.

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am ei ras a'r sicrwydd ein bod yn ddiogel ac wedi ein hachub. Rydym wedi ein caru uwchlaw deall!

YMATEB AC YSTYRIED

Ydych chi yn amau neu yn cymryd cariad Duw yn ganiataol?

GOFYN

Gofynnwch y bydd pobl Duw yng Nghymru yn cael eu hadnabod fel pobl o ddiolchgarwch a ffydd. Gweddiwch y byddwn yn parhau i edrych ar Iesu drwy bob brwydr ac anhawster.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Roedd wythnos ddiwethaf yn amser o fendith yn y mini-Gwersyll ym Mryn y groes. Byddai nifer o Gristnogion ifanc yn cyfarfod bob bore i weddio. Diolch i Dduw y medrwn edrych ar y bobl ifanc hyn gan wybod, os ydyn nhw wedi ei hachub, y byddant yn sefyll yn gadarn.

Mae'n hawdd i ni anghofio'r cariad y mae Duw wedi ei ddangos tuag atom yng Nghymru - mae cannoedd o eglwysi'r efengyl yn ein gwlad. Does dim angen teithio yn rhy bell i gael cwmni Cristion arall.

Mae'r Beibl yn ein hiaith ni.



MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU

YN GWASANAETHU'R EGLWYS
www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407